Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Aberdâr**

**Canolfan yr Urdd**
**Wind Street**
**Aberdâr**
**CF44 7ES**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Final un hed report



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/01/2023

Final unpublished report

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Aberdâr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Seren Fach |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg. |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru yw hwn. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

Final unpublished report

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn gallu ymlacio ac mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff ac â'i gilydd. Maent yn cael cyfleoedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain ac mae eu hanghenion yn cael eu diwallu a'u dewisiadau yn cael eu bodloni. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn dda. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae ac yn canolbwyntio ar y gweithgareddau a ddewiswyd ganddynt, gan ddatblygu amrywiaeth o sgiliau annibyniaeth.

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad da a chadarnhaol. Mae'r staff yn annog datblygiad y plant drwy chwarae.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r ardal chwarae dan do yn fawr ac wedi cael ei threfnu'n effeithiol ac mae'r ardaloedd awyr agored yn datblygu'n dda. Mae ystod dda o adnoddau hygyrch sy'n addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygiad y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hwn yn drefnus ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol. Maent yn dilyn prosesau recriwtio da ac yn cynnal gwiriadau addasrwydd ac yn trefnu'r staff yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu ansawdd gofal y gwasanaeth yn rheolaidd. Mae'r partneriaethau â'r rhieni'n dda iawn.

Final Unpublished report

**Llesiant** **Da**

Mae'r plant yn hapus ac yn gallu ymlacio ac mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff ac â'i gilydd. Mae'r plant yn mynd at y staff yn hyderus i gael cymorth a chysur pan fydd eu hangen arnynt. Roeddent yn mynd at y staff pan oeddent am chwarae gyda'r toes chwarae a hefyd i gael maldod pan oeddent wedi blino. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn dewis pa fwydydd maent am eu bwyta ac ym mha ardaloedd yr hoffent chwarae, megis chwarae rôl, adeiladu, toes chwarae a thywod. Caiff eu hanghenion a'u dewisiadau eu hystyried. Er enghraifft, yn ystod amser cylch, roedd y plant nad oeddent yn barod i eistedd gyda'r plant eraill yn cael eu parchu ac yn cael chwarae â'r adnoddau a ddewiswyd ganddynt yn yr ardaloedd a ddewiswyd ganddynt. Mae'r plant yn teimlo ymdeimlad o gyflawniad. Roedd y plant yn gwenu wrth iddynt gael eu canmol am dacluso a gosod y darnau jig-so yn y mannau cywir. Roeddent yn dathlu gyda'u ffrindiau wrth gwblhau'r posau.

Mae gan y plant ymdeimlad da o berthyn. Maent yn teimlo'n hyderus yn eu hamgylchedd ac yn setlo'n dda i chwarae ymhlith eu ffrindiau. Mae'r plant yn gyfarwydd â'u harferion. Er enghraifft, tacluso'r adnoddau yn llwyddiannus. Maent yn deall pan fo angen iddynt ymuno â'r plant eraill ar y carped ar gyfer amser cylch a bod angen iddynt olchi eu dwylo cyn bwyta.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn dda. Maent yn dangos parch a gofal tuag at eraill. Er enghraifft, pan nad oedd lle i blentyn arall ymgynnull o amgylch y pwll tywod, gwnaethant wrando ar y staff a wnaeth eu hannog i wneud lle i eraill. Mae'r plant yn dangos caredigrwydd tuag at ei gilydd drwy rannu adnoddau yn yr ardal chwarae tywod megis y moch a'r blaidd o stori'r 'Tri Mochyn Bach'.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae. Roeddent yn canolbwyntio ar y gweithgareddau a gynigir iddynt. Gwnaeth y plant ddewis cymysgu'r cynhwysion i wneud toes chwarae gyda chymorth gan y staff a gwnaethant ddefnyddio torwyr i wneud gwahanol siapiau. Mae'r plant yn canolbwyntio ar dasgau ac ar yr ardaloedd chwarae a ddewisir ganddynt. Gwnaethant fwynhau eu gweithgareddau paentio, ac aeth rhai ati i wneud marciau â chreonau. Aeth y plant ati'n llawn cyffro i adeiladu tŵr o frics yn yr ardal adeiladu gan sgrechian yn llawn mwynhad wrth gydweithio i ddymchwel y tŵr. Mae'r plant yn datblygu patrymau'r Gymraeg drwy ganu a thrafod. Maent yn mwynhau amser cylch, gan ganu hwiangerddi Cymraeg megis 'un bys, dau bys' a 'Mr Hapus'.

Mae'r plant yn datblygu rhai cyfleoedd i ddod yn annibynnol. Maent yn datblygu ystod o sgiliau ac yn dangos sgiliau echddygol manwl da drwy wneud marciau a defnyddio offer ar gyfer gweithgareddau paentio a thoes chwarae. Mae'r plant yn gallu datblygu eu hannibyniaeth yn ystod amser byrbryd. Roeddent yn rhoi menyn ar eu tost eu hunain â chyllyll ac yn dychwelyd eu cwpanau a'u platiau i'r aelodau o staff ar ôl iddynt orffen. Mae'r

Final unpublished report

plant yn dangos ymwybyddiaeth o enwau lliwiau, cyfrif, enwau anifeiliaid a rhifau yn Gymraeg. Fodd bynnag, gellid datblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer sgiliau annibyniaeth.

Final unpublished report

## Gofal a Datblygiad Da

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi arferion glanhau a hylendid priodol ar waith. Mae'r staff yn sicrhau bod pob plentyn yn golchi ei ddwylo cyn bwyta a bod y byrddau'n cael eu diheintio cyn i'r plant fwyta eu bwyd. Mae'r staff yn rhoi'r canllawiau Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliad gofal plant ar waith wrth iddynt baratoi dewisiadau iachus i'r plant yn ystod amseroedd byrbryd, sy'n cynnwys ffrwythau, grawnfwydydd, craceri a dewis o ddŵr neu laeth. Mae'r plant yn dod â'u pecynnau cinio a'u diodydd eu hunain. Fodd bynnag, nid oedd dŵr o fewn cyrraedd y plant bob amser yn ystod eu sesiynau chwarae a dysgu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael digon i'w yfed. Dangosodd trafodaethau â'r staff eu bod yn deall yr angen am arferion diogelu da. Maent yn deall y gweithdrefnau a'u rolau a'u cyfrifoldebau pe bai pryder amddiffyn plant neu ddiogelu. Caiff cofnodion meddyginiaeth, digwyddiadau, damweiniau ac anafiadau blaenorol eu cadw a chânt eu llofnodi gan y staff a'r rhieni. Mae bron pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant ac mae'r rhan fwyaf wedi cwblhau hyfforddiant hylendid bwyd. Mae gan y staff ymwybyddiaeth dda o alergeddau ac anoddefiadau'r plant, ac mae asesiadau risg a chynlluniau gweithredu ar waith ar gyfer unrhyw argyfyngau a allai godi. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol wrth newid cewynnau, ac maent yn diheintio'r ardaloedd newid ar ôl newid pob cewyn.

Mae'r staff yn deall y polisi ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad da ar waith yn ôl yr angen. Os bydd sefyllfa yn codi lle bydd y plant am gael yr un adnoddau, byddant yn mynd ati'n ddigynnwrf i drafod y mater â'r plant. Er enghraifft, anogwyd y plant i rannu a chymryd eu tro wrth chwarae rôl yn y gegin ac anogwyd eraill i rannu'r teganau fferm. Mae'r staff yn annog y plant mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn canmol y plant am orffen eu byrbrydau ac am dacluso'n dda. Mae'r staff yn dangos esiampl dda. Maent yn annog y plant i ddweud 'diolch' am eu bwyd ac wedyn yn eu canmol am wneud hynny drwy ddweud 'ardderchog!'

Mae'r staff yn annog dysgu drwy chwarae. Maent yn annog y plant i gyfrif y blociau y maent yn eu gosod ar ben ei gilydd drwy gyfrif i ddeg yn Gymraeg. Mae'r staff yn cael trafodaethau â'r plant am y lliwiau y gallant eu gweld yn ystod gweithgaredd jig-so ac yn annog y plant i drafod enwau pobl ac anifeiliaid yn ystod chwarae byd bach. Mae'r staff yn cynllunio eu gweithgareddau a'u darpariaeth chwarae yn llwyddiannus gan sicrhau bod gan y plant adnoddau sy'n gysylltiedig â'r themâu a diddordebau'r plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r Cwricwlwm newydd i Gymru ac maent yn datblygu ffyrdd effeithiol o gynllunio ac asesu. Mae'r staff yn hyrwyddo gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth, a dealltwriaeth ohonynt, drwy ddathlu gwyliau fel Diwali. Mae'r staff yn hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig drwy ddathlu diwrnod Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi ac ymweld â'r delynor yn yr amgueddfa dreftadaeth leol. Mae'r staff yn asesu cynnydd y plant drwy asesiadau ac arsylwadau ac yn eu defnyddio i gynllunio ar gyfer camau nesaf y plant. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn nodi dewisiadau, anghenion a

Final unpublished report

thargedau'r plant o ran eu datblygiad unigol. Mae'r staff yn gwella sgiliau Cymraeg y plant drwy ganeuon a symudiadau.

Final unpublished report

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Er enghraifft, mae'r fynedfa yn cael ei chloi, ac maent yn cadw cofnodion o ymwelwyr. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn adeilad mawr sydd ar ddau lawr. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal asesiadau risg cadarn, ac yn rhoi arferion glanhau ar waith. Mae'r gwiriadau cynnal a chadw a'r gwiriadau tân yn gyfredol. Caiff ymarferion tân rheolaidd eu cofnodi. Fodd bynnag, nid oes llawer o fanylion yn cael eu cofnodi am yr ymarferion tân.

Mae'r ardal chwarae dan do yn fawr ac wedi'i threfnu'n effeithiol. Mae'r amgylchedd yn creu ymdeimlad o berthyn. Mae arddangosfeydd o gyflawniadau'r plant gan gynnwys lluniau o deuluoedd y plant, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae toiledau a basnau newydd wedi cael eu gosod ar gyfer y plant, gan gynnwys sebon hylif a thywelion papur; a chaiff preifatrwydd ac urddas eu parchu. Mae ardaloedd dynodedig i'r plant y mae angen ardal dawel neu gyfle i orffwys arnynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu byrddau a chadeiriau i'r plant er mwyn iddynt gymdeithasu yn ystod amser bwyd. Mae neuadd fawr iawn i fyny'r grisiau, sy'n cael ei defnyddio i hybu datblygiad corfforol ac yn cael ei defnyddio ar gyfer y plant ar ôl ysgol. Mae adnoddau addas ar gyfer y plant hŷn gan gynnwys amrywiaeth o gemau a phosau, teganau chwarae rôl, teganau adeiladu, adnoddau crefft a sgrin deledu.

Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, ac mae dewis o deganau ac adnoddau ar gael i wella eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu adnoddau i ddatblygu creadigrwydd, iaith, datblygiad mathemategol, sgiliau chwarae dychmygus a chwilfrydedd y plant. Mae'r ardal awyr agored wedi'i hamgáu gan wal garreg ac mae'n cynnig man dysgu addas i'r plant, sy'n cynnwys cyfleoedd i wneud marciau, cegin fwd ar gyfer gweithgareddau chwarae dychmygus ac adnoddau sy'n hybu datblygiad corfforol. Mae adnoddau sy'n hyrwyddo diwylliannau ac amrywiaeth, sy'n cynnwys dillad gwisgo i fyny, adnoddau Tsieineaidd ac Indiaidd, doliau a llyfrau.

Final unpublished report

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hwn yn drefnus ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y lleoliad. Maent yn diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau yn rheolaidd ac yn eu rhoi ar waith yn effeithiol o ganlyniad i weithdrefnau sefydlu effeithiol ar gyfer aelodau newydd o staff. Mae'r datganiad o ddiben yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau ac yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r cymarebau rhwng y staff a'r plant yn gywir er mwyn diwallu anghenion y plant. Mae cofnodion o'r plant a'r staff gofal sy'n bresennol bob dydd. Mae yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus wedi'i drefnu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r staff yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd er mwyn trafod newidiadau, digwyddiadau a diweddariadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad hwn ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu ansawdd y gofal a ddarperir yn rheolaidd. Maent yn gofyn am adborth gan y rhieni, y plant a'r staff ac roedd yr adborth a welwyd yn gadarnhaol. Mae camau gwella wedi'u llunio o ganlyniad i'r holiaduron a rhoddir y camau hyn ar waith yng nghynllun datblygu'r lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio da ac yn sicrhau bod gwiriadau addasrwydd, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiynau sefydlu, sesiynau goruchwylio ac arfarniadau amserol, gan dynnu sylw at unrhyw feysydd ar gyfer datblygiad proffesiynol a hyfforddiant. Mae cymwysterau’r staff yn bodloni'r gofynion, ac mae gofynion hyfforddiant gorfodol yn cael eu bodloni. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn cael cyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru yn rheolaidd am newidiadau i'r lleoliad, gan gynnwys newidiadau i'r staff a newidiadau i'r datganiad o ddiben, yn amserol.

Final unpublished report

Mae'r partneriaethau â'r rhieni'n dda iawn. Dywedodd y rhieni wrthym fod anghenion eu plant yn cael eu diwallu'n llawn a bod eu plant wedi gwneud cynnydd da yn y Gymraeg ers iddynt ddechrau yn y lleoliad. Mae'r rhieni yn teimlo eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau, a bod y staff gofal yn hawdd iawn mynd atynt ac yn diwallu anghenion personol y plant. Caiff gwybodaeth ei rhannu â rhieni drwy we-ffurflen ar-lein lle mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau codi arian, gweithgareddau, lluniau unigol a gwybodaeth. Mae gan y lleoliad dudalen cyfryngau cymdeithasol lle caiff gwybodaeth ei rhannu am weithgareddau diweddar. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cysylltiadau da â'r gymuned leol. Maent wedi ymweld â'r llyfrgell, y parc, y swyddfa bost a'r siop leol, gan wella ymdeimlad o berthyn y plant yn y gymuned.

Final unpublished report

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Gwella sgiliau annibyniaeth y plant.

A2. Sicrhau bod dŵr ar gael i'r plant bob amser.

A3. Ehangu'r wybodaeth a gofnodir yn ystod ymarferion tân

Final unpublished report

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Final Unpublished report

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Final unpublished report

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/03/2023

Final unpublished report